

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mehefin 3ydd 2025 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, June 3rd 2025 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Present* – Cynghorwyr/*Councillors* Gareth Evans, Barri Davies, Elen Mathias, Gwyn James, Teifi Davies, Walwyn Jones

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Jonathan Rees, Delfryn Owens, Melva Phillips, William Anwyl, Caerwyn Owen.

2 Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests

DIM BYD PERTHNASOL/NO RELEVANCE

3 Materion Personol/Personal Matters

Mynegodd holl aelodau'r Cyngor eu dymuniadau gorau a gwellhad buan i Caerwyn yn dilyn ei driniaeth feddygol yn ddiweddar.

All members expressed their best wishes and a full recovery to Caerwyn following his recent medical treatment.

4 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 6/5/25

Cynigiwyd eu bod yn gywir gan Walwyn a'i eilio gan Barri

Proposed to be correct by Walwyn and seconded by Barri.

5 Materion yn Codi/Matters Arising

i) Sylwadau Pwyllgor Lles Tresaith ar Doiledau y Pentref/*Observations from Tresaith Welfare Committee regarding toilet provision in the village*

Yn dilyn gwahoddiad iddynt fynychu un o'n cyfarfodydd danfonodd Hedydd, ar eu rhan, grynodedb o'u casgliadau ar y mater uchod.

Nododd fod y Cyngor Sir wedi cynnal safon uchel o ran eu cadw'n agored a'u bod yn awyddus y dylai hyn barhau, yn enwedig am resymau iechyd a lles. Mae'n siomedig deall bod y Cyngor Sir am drosglwyddo'r cyfrifoldeb neu ar ei waethaf eu cau. Nid oedd o'r farn y byddai'r pentref yn medru cyfrannu tuag at eu cynnal. Pryder arall ganddi oedd colli'r Faner Las yn sgil cau'r toiledau. Mae nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n ddifrifus dros yr haf, yn enwedig pan fydd y 'Tresaith Mariners' yn cynnal eu cystadlaethau hwyllo. Ceir trwyddedau alcohol, a roddir gyda llaw, gan y Cyngor Sir ei hun.

Diolchwyd i Hedydd am ei sylwadau.

Having received an invitation to attend one of our meetings, Hedydd sent some observations on behalf of the Committee. It was noted that the County Council had maintained these toilets to a high standard for many years, and that they wished this to continue, especially for wellbeing of people. Disappointment was expressed that the County Council was considering handing over the responsibility to someone else, or worse closing them. She wasn't of the opinion that the village could contribute towards their upkeep. Another of her fears was losing the Blue Flag status. The number of visitors increases substantially during the summer, especially during

'Tresaith Mariners' activities. A licence to serve alcohol is issued for these occasions by the County Council itself.

The members thanked Hedydd for her observations.

ii) **Hyfforddiant Aelodaeth/Members' Training**

Trefnwyd cyrsiau hyfforddiant ar gyfer 2 aelod o'r Cyngor. Mynychodd Jonathan sesiwn ar sut i hyrwyddo ymwneud â'r gymuned. Bwriad Elen oedd mynychu sesiwn ar gyflwyniad i waith Cynghorydd. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau teuluol, ni fedrai fod yn bresennol, felly penderfynwyd trefnu cyfle arall iddi yn y dyfodol agos. *Training sessions were arranged for 2 members. Jonathan attended a session on Community Engagement. It was Elen's intention to attend a session on an Induction Course. However, due to family circumstances, she was unable to attend, therefore it was decided to offer her another opportunity in the near future.*

6 Cymeradwyo Cyfrifon y Cyngor/Approval of Council Accounts – 2024/25

- i) Wrth gyflwyno'r cyfrifon i'r aelodau esboniodd a gosododd y Clerc y cyd-destun ehangach yng nghyswllt y ffaith nad oedd cyfrif banc gweithredol gan y Cyngor am 18 mis. Cafodd y fath sefyllfa gryn ddylanwad ar gyllideb a gwariant y Cyngor hwn yn ystod y blynyddoedd 2023/24 a 2024/25. Pan adferwyd y cyfrif banc ym mis Medi 2023 crynhowyd gwerth 18 mis o daliadau ôl-syllol yng nghyfrifon 2023/24. Cafwyd cynnydd sylweddol a digynsail yng ngwariant y flwyddyn honno gan gamliwio gwir wariant rheolaidd y Cyngor.

Gyda gwariant y Cyngor wedi sefydlogi a dychwelyd i'r cyfanswm mwy rheolaidd yr oedd yn anorod y byddai'r gwariant yn amrywio cryn dipyn eto o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol afreolaidd. Y gobaith yw y bydd y cyfanswm yn ystod y blynyddoedd nesaf yn adfer y patrwm arferol. Nododd y Clerc rai enghreifftiau wrth yr aelodau megis y gwahaniaeth y gwnaeth talu ôl-gyflog y cyn-Glerc i wariant y Cyngor yn ystod 2023/24. Wedi derbyn yr wybodaeth atodol a darllen y cyfrifon am y flwyddyn dan sylw, pledleisiodd yr aelodau yn unfrydol i'w cymeradwyo.

While presenting the accounts to the members the Clerk explained the wider context regarding the fact that the Council had no operational bank account for 18 months. Evidently this situation had a substantial influence on this Council's budget and expenditure during the years 2023/24 and 2024/25. When the account was restored in September 2023 the equivalent of 18 months' retrospective payments had to be reimbursed in the accounts for 2023/24. The annual expenditure increased to such a degree that it hardly reflected the Council's regular spending.

With our expenditure having stabilised far nearer to our average amount it was inevitable that variations in spending would continue compared to last year's irregular total. The hope is that the next few years will restore the appropriate financial balance. The Clerk specified some examples to the members, namely, the difference paying the former Clerk's retrospective salary made to the Council's expenditure during 2023/24. Having read the accounts and received the additional information, the members voted unanimously to accept and approve the accounts for 2024/25.

7 Cyllid/Finance

- i) **Balans/Balance**

Balans Blaenorol/Previous Balance

£16405.85

Taliadau/*Payments*

Un Llais Cymru/*One Voice Wales* £275.00

Costau Banc/*Bank Charges* £4.75

Balans Newydd/*New Balance* £16126.10

ii) Cymeradwyo Taliadau/*Approval of Payments*

Un Llais Cymru – Hyfforddiant/*One Voice Wales – Training* £84.00

Bois y Mowo £90.00

Cymeradwyd y taliadau yn unfrydol/*Unanimously approved*

iii) Ad-daliad TAW/*VAT Rebate*

Hysbysodd y Clerc yr aelodau ei fod yn bwriadu cyflwyno datganiad ad-daliad TAW trwy law DMB Davies yn ystod mis Mehefin.

The Clerk informed the members that he intended to submit a VAT rebate declaration via DMB Davies this month.

8 Cynllunio/Planning

i) A250338 Tanyfron, Tanygroes
DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

A250317 Aberarthen, Glynarthen
DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

A250282 Pencwm, Sarnau
DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

9 Gwefan y Cyngor/Council Website

i) Nododd y Clerc fod gwefan y Cyngor hwn bellach wedi'i hadfer ac yn gwbl weithredol. Mae'r cofnodion a'r agenda'u diweddaraf wedi'u lawrlwytho ynghyd â chyfrifon y Cyngor hwn dros y blynyddoedd diweddar. Bydd y wefan yn parhau i gael ei datblygu'n gyson gydag ychwanegiadau pellach at yr wybodaeth a ddangosir arni. Bydd y Clerc yn cydweithio gyda Graham Jones er mwyn hwyluso datblygiad y cyfrwng hwn. Anogwyd yr aelodau i gael golwg ar y wefan ar ei newydd wedd.
The Clerk stated that the Council's website has been restored and is now fully operational. The latest minutes and agendas have been downloaded as well as the Council's most recent accounts. The website will continue to be developed with further additions to the information provided by this medium. The Clerk will be co-operating with Graham Jones in order to facilitate how the website evolves. Members were urged to peruse the site for themselves.

10 Gohebiaeth/Correspondence

DIM GOHEBIAETH/NO CORRESPONDENCE

11 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) **Gweithgarwch Fferm Temple Bar/Temple Bar Farm Activity**
Er mwyn codi arian at elusennau cancr bydd Teifi a Jenny yn cynnal diwrnodau agored i ymweld â gardd Temple Bar rhwng Ebrill 14eg a Gorffennaf 31ain. Bydd ar agor drwy apwyntiad ar gyfer grwp o hyd at 10 o bobl. Bydd yr holl arian a godir yn cael ei fuddsoddi yng Nghymru. Gobeithiwn yn fawr y byddant yn derbyn cefnogaeth eang i'w menter.
In order to raise funds for cancer charities Teifi and Jenny will be holding open days to visit the garden at Temple Bar between April 14th and July 31st. It will be open by appointment for groups up to a maximum of 10 persons. All contributions will be invested in Wales. We wish them well in their venture.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Gorffennaf 1af 2025 am 7.30 y.h.
The next meeting will be held on Tuesday, July 1st 2025 at 7.30 p.m.